



Mae teithiau o amgylch Boston Lodge yn helpu ymwelwyr i ddeall treftadaeth y safle. Llun: Chris Parry.

Gwnaethon ni ofyn i Reolwr Cyffredinol Cwmni Rheilffordd Ffestiniog, Paul Lewin, a'r Rheolwr Prosiect Edwina Bell, sut yr aethon nhw ati i adfer Boston Lodge, gweithfeydd peirianeg rheilffordd hynaf y byd sy'n gweithredu'n barhaus.

Ynghylch y prosiect

Mae trenau ager wedi cael eu hadfer yn Boston Lodge ers bron i 200 mlynedd. Mae'n hyb sgiliau treftadaeth wrth wraidd Rheilffordd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru, sy'n rhedeg trwy Barc Cenedlaethol Eryri, un o dirweddau Treftadaeth y Byd UNESCO. [Bu i'n buddsoddiad](#) gefnogi Paul, Edwina a'r tîm i ddod â Boston Lodge yn fyw ar gyfer ymwelwyr a denu bron i 600 o wirfoddolwyr.

Beth oeddech chi'n ei chael yn fwyaf heriol am eich cais a sut wnaethoch chi oresgyn yr heriau hyn?

Paul: Roedd yn gymhleth i esbonio ein gweledigaeth ar gyfer y prosiect. [Penderfynon ni mai'r ffordd orau o esbonio'r prosiect fyddai cynhyrchu fideo eirioli 8 munud o hyd.](#) Daeth hyn â ffocws i'n cyfathrebiadau ac roedd yn ffordd ddefnyddiol o gefnogi ein cais. Drwy gydol y broses, mae'n hanfodol cael gweledigaeth glir a gweithio allan sut i'w

chyfleu'n gyflym ac yn effeithiol.

Edwin
sicrhau
terfyn



lydd a
ygiad

Paul Lewin, Rheolwr Cyffredinol ac Edwina Bell, Rheolwr Prosiect yn y llun yn drydydd ac yn ail o'r dde yn y dathliadau ar gyfer ailagor Boston Lodge ym mis Mai 2025. Llun: Chris Parry.

Beth fydddech chi'n ei argymhell i ddarpar ymgeiswyr dreulio mwy o amser arno wrth ddatblygu eu cais?

Edwina: Mae'n bwysig deall y berthynas rhwng [eich cynllun gweithgareddau](#) a'r gwaith cyfalaf. Yr hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud **gyda'r** adeiladau ddylai yrru'r prosiect, nid yr hyn yr ydych yn ei wneud **iddyn nhw**.

Pa un darn o gyngor fydddech chi'n ei roi i rywun sy'n gwneud cais am ariannu am y tro cyntaf?

Edwina: Dechreuwch gyda phrosiect llai os gallwch chi. [Gyrrwch ymholiad prosiect](#) a siaradwch â'ch tîm Cronfa Treftadaeth lleol wrth i chi ddatblygu eich syniad.

Pa un peth ydych chi'n ei wybod nawr yr hoffech chi fod wedi'i wybod cyn i chi ddechrau?

Paul: C
hynny'

nar



Boston Lodge yw'r gwaith peirianeg rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru. Llun: Chris Parry.

Wrth gyflwyno eich prosiect, beth wnaeth eich synnu chi?

Edwina: Ces i fy synnu'n llwyr gan yr awydd am brofiad gwaith ar y rheilffordd gan ysgolion a cholegau, a hefyd gan oedolion yn dychwelyd i'r gwaith. Fe rhagoron ni i'r eithaf ar ein targedau cyfranogiad. Gofynnodd hyn am amser ychwanegol gan gydweithwyr i staffio a goruchwyllo ond o ystyried y canlyniadau'n roedd yn bendant yn werth chweil.

Ar ôl y prosiect hwn, beth ydych chi'n edrych ymlaen ato fwyaf yn nyfodol y rheilffordd?

Paul: Gweithredu'n barhaol mewn ffordd fwy cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys mwy o wirfoddolwyr, staff sydd wedi'u hyfforddi'n well, disgwyliadau o ran cyfleusterau gwell, bod yn fwy llesol i'r amgylchedd, poeni llai am seilwaith sy'n dadfeilio ac - yn bwysicaf oll - gwybod bod ein stori'n cael ei chlywed gan gynifer mwy o bobl.

Dyma ran o [gyfres o sesiynau Holi ac Ateb gyda grantïon llwyddiannus](#) - gan helpu i ddileu dirgelwch y broses ymdeisio am brosiect a'i gyflwyno, a rhannu profiadau ar draws y sector.



efyd mewn ...




[Blyth Tall Ship has created inspiring volunteer opportunities in the north east. Photo: Colin McLean Photography.](#)



[g, learning and adapting](#)

[Recording a podcast episode with SWI members Maz Thorn, Janette McKirdy and Sandra MacArthur. Photo: Scottish Women's Institutes.](#)



[stage of your heritage project](#)

[The original illuminations captured the imaginations of local people and visitors from around the UK. Photo: Whittle Productions.](#)

[Grantee Q&A: illuminating Leamington's festival of light](#)